**Cyngor Cymuned Llandyfriog**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10 fed Ionawr 2023 yn Neuadd yr Eglwys Llandyfriog o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Ken Jones.

**1A Yn Bresennol.**
Y Cynghorwyr - Derrick Richards, Rhys ap Tegwyn,Ian James, Branwen Davies, Wyn Thomas a Ken Jones.

**1B Ymddiheuriadau** .
Sian Taylor, Alan Davies, Carol Davies, Meinir Thomas a Ann Jones.

**1C) Cadarnhau Cofnodion y 6/ 12/ 2022.**
Derrick Richards (C).
Rhys ap Tegwyn (E).

**2) Heddlu.**

Croeso cynnes i Shannon Sinnott, sef : PCSO: newydd yn y Dref.

**3) Cynllunio.**

A 220898- Mr Mc Farlane, 5 Caeberllan, Adpar, Castellnewydd Emlyn.
: Erection of a Single Storey glass roof extension, to the rear elevation:

Dim Gwrthwynebiad.
Y Cynghorydd Sir, Wyn Thomas yn datgan diddordeb.

**4) Gohebiaeth.**

Cyngor Sir Ceredigion, Defnydd o Swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol.
Holiadur. Y Cynghorwyr i ateb yn ol.

Cau ffordd ar frys yn Penrhiwllan, Llandysul SA445NT.
8.00 or gloch - 13/12/22 tan 18.00 ar y - 15/12/22.
: Emergency water services repairs:

Un Llais Cymru – Cynlluniau Hyfforddiant Cynghorau Tref a Chymuned.

**5) Materion Ariannol.**

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Anwen Evans. | | £345.22. |
| Mrs Gillian Davies. | | £184.30. |
| Swalec. | | £21.21. |
| Cyfanswm. | - | £550.73. |

(C) Branwen Davies.
(E) Ian James.

**6) Cyfraniad**

:Tivy Side Show Castellnewydd Emlyn – 8 fed o Orffennaf 2023 - £150.00

(c) Ian James.
(e) Rhys ap Tegwyn.

Y Cynghorydd Sir, Wyn Thomas yn datgan diddordeb.

**7) Materion eraill.**

Cynghorwyr angen ystyried cael Cynghorydd Newydd yn Adpar.
Cytunwyd i drafod ymhellach yn Cyfarfod mis Chwefror.

Angen golau ychwanegol ger y Neuadd yn Penrhiwllan.
Y Clerc i anfon neges ir Cyngor Sir, Ceredigion.

Mae y Cynghorydd Sir, Wyn Thomas yn mynd i edrych ar y Goluadau sydd yn Adpar, Llawer o gwyno nad oes digon yna.
Hefyd y Clerc i gysylltu gyda Ceredigion.

Anfon neges arall i Dwr Cymru ynglyn a lleoliad y :Fire hydrant: sydd wedi mynd ar goll yn Henllan.

Y Clerc i gysylltu gyda y swyddog Shannon Sinnott ynglyn a dau gar modur sydd yn parcio mewn man peryglus ger y junction yn Henllan
Fiat 500 Cream yw un or ddau. Causing obstruction on a junction.

Y Cynghorydd Branwen wedi cyfeirio, fod y spwriel yn dal ger y fynedfa i Fferm Blaendyffryn.
Y Clerc i gysylltu eto gyda Ceredigion.

Llawer iawn o ddamweiniau wedi bod oherwydd y tywydd rhew, yn y gymuned.

Llawer iawn o gatrefi heb Ddwr hefyd, oherwydd y rhew, Roedd Dwr Cymru wedi bod yn brysur iawn yn dosbarthu yn Llandysul a Castellnewydd Emlyn, gydai loriau.

Mae y Cyngor Sir wrth drafod y gyllideb am y flwyddyn nesaf , yn debyg o roi pwysau ar bob adran or cyngor yn ei tro.

Cafwyd gwybodaeth fod angen tri mis o rybydd gan y Cyngor Sir or angen i gau ei heolydd.

Y Clerc i edrych ar y wefan i weld a oes na galender, pa bryd bydd y spwriel yn cael ei chasglu yn y gymuned.

Llongyfarchiadau mawr i'r Cynghorydd Branwen Davies am gyhoeddi ei Llyfyr SPLASH.

Cydymdeimlwyd gyda theulu Mrs Nan Jones, Dolau, Llandyfriog a fu farw ynddiweddar.
Y Clerc i anfon carden iddynt fel teulu ar ran y Cyngor Cymuned.

Llongyfarchiadau ir Parchedig Euryl Howells o dderbyn yr anrhydedd, B.E.M oddi wrth y Brenin Charles y 3ydd am wasanaeth i gleifion ynghyd a theuluoedd, a staff ym Mwrdd iechyd Hywel Dda.

Roedd pawb yn gytun bod angen £15000.00 fel: Precept: am y flwyddyn 2023/2024.

Cytunwyd fod yn Mis Chwefror, bydd y Cynghorwyr yn cwrdd am 7.00 i dafod cyflog Mrs Anwen Evans a Mrs Gillian Davies.

***<u>Cyfarfod nesaf ar y 7 fed o Chwefror am 7.00 or gloch yn Neuadd yr Eglwys Llandyfriog.</u>***